# Polisi a gweithdrefnau diogelu

| | |
|---|---|
| **Teitl y polisi:**<br><br>Polisi a Gweithdrefnau Diogelu QAA | |
| **Datganiad polisi (crynodeb o'r prif bwyntiau):**<br><br>Gall staff QAA ddod ar draws pryderon ynghylch diogelu, ac oherwydd bod QAA yn elusen, mae'n rhaid i'r sefydliad fod â pholisïau a gweithdrefnau addas ar waith ynghylch diogelu i amddiffyn unigolion bregus, gan gynnwys plant, rhag niwed.<br><br>Mae gan ein holl staff a'r rhai sy'n gweithio mewn timau adolygu ddyletswydd i ymgyfarwyddo â threfniadau lleol y darparydd ar gyfer diogelu a sut i roi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch amddiffyn plant neu oedolion y byddant yn dod yn ymwybodol ohonynt. | |
| **Nod strategol y polisi:**<br><br>Gan fod QAA yn elusen, mae'n ofynnol i'r sefydliad fod â pholisi diogelu sy'n berthnasol i'w gweithwyr ac mae'n ofynnol iddynt fod â gweithdrefnau addas ar waith yn ymwneud â diogelu. Nid oes gan QAA unrhyw gyfrifoldebau diogelu deddfwriaethol penodol. Nid yw'r gweithgareddau sicrhau ansawdd ac adolygu a gyflawnir gan QAA yn gyfystyr â "gweithgaredd sy'n cael ei reoleiddio" yng nghyd-destun plant nac oedolion agored i niwed yn unrhyw un o'r pedair gwlad. Mae'r polisi hwn yn amlinellu cyfrifoldebau'r rhai a gyflogir gan QAA a'r gweithdrefnau ar gyfer uwchgyfeirio pryderon. | |
| **Dolenni i bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau eraill:**<br><br>• Polisi Recriwtio<br>• Gweithdrefnau Disgyblu<br>• Gweithdrefn Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion<br>• Polisi Diogelu Data<br>• Polisi Rhyddid i Siarad yn Agored<br>• Polisi Cadw Gwybodaeth<br>• Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion | |
| **Yn eiddo i:** Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol | **Fersiwn:** 1 |
| **Cymeradwywyd gan:** Bwrdd QAA | **Dyddiad:** 11eg Mehefin 2025 |

| | |
|---|---|
| **Adolygwyd / diweddarwyd ddiwethaf** | **Dyddiad:** [Dyddiad yr adolygiad diwethaf] |
| **Dyddiad yr adolygiad nesaf:** | **Dyddiad: Mehefin 2027** |
| **Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:** | Governance@qaa.ac.uk |

# Rhagarweiniad

Mae QAA yn defnyddio diffiniadau o'r term 'diogelu' o ganllawiau statudol. Nid oes gan QAA unrhyw gyfrifoldebau diogelu deddfwriaethol penodol, nid yw'r sefydliad yn ymgymryd â gweithgaredd a gaiff eu rheoleiddio ac nid oes gofyniad statudol iddynt fod â strwythur adrodd yn unol â chanllawiau statudol. Fodd bynnag, mae eu gwaith yn golygu y gall staff QAA wynebu pryderon ynghylch diogelu, a, gan fod QAA yn elusen, mae'n rhaid iddynt fod â pholisïau a gweithdrefnau addas ar waith sy'n ymwneud â diogelu.

## Pwrpas

Mae'r polisi hwn yn nodi ymagwedd QAA at ddiogelu a hyrwyddo diogelwch a lles plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed. Mae'n amlinellu cyfrifoldebau cyfreithiol QAA o ran diogelu, a'r rhwymedigaethau ar unrhyw un a gyflogir gan QAA.

Lle mae QAA yn adolygu trefniadau diogelu, mae'r cyfrifoldebau wedi'u nodi yn y llawlyfr ar gyfer y dull.

## Cwmpas

Mae'r polisi'n berthnasol i'r holl staff, adolygwyr, aseswyr, ymwelwyr neu unrhyw un a gyflogir gan QAA, ac i aelodau Bwrdd QAA. Mae holl staff QAA yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â mesurau diogelwch perthnasol wrth gyflawni eu gwaith. Gallai gweithredu'n groes i bolisi darparydd neu QAA fod yn ddigwyddiad y dylid adrodd amdano i'r Comisiwn Elusennau a/neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Rolau a Chyfrifoldebau

O ran diogelu, mae'r cyfrifoldebau penodol fel a ganlyn:

Y Bwrdd:

- Dyletswydd i fodloni'r gofynion penodol y dylai elusennau eu dilyn. Mae hyn yn cynnwys bod â strwythur llywodraethiant da ar waith sy'n galluogi QAA i ddiogelu ac amddiffyn pobl sy'n dod i gysylltiad â'r elusen rhag niwed, sy'n cynnwys:
    - y rhai sy'n elwa o'u gwaith;
    - staff; a
    - pobl eraill sy'n dod i gysylltiad â'r elusen trwy eu gwaith.
- Goruchwylio'r polisi hwn a'i nodau ac amcanion;

Arweinwyr Diogelu Dynodedig:

- Ffynhonnell ar gyfer cyngor ac arweiniad i staff sydd â phryderon ar ôl iddynt ddilyn polisïau a gweithdrefnau'r darparydd, gan sicrhau eu bod wedi dilyn canllawiau cyfrinachedd neu adrodd cywir, a chefnogi cyswllt â'r darparydd lle bo angen.

- Cadw’n gyfredol â hyfforddiant i roi cyngor ac arweiniad

Mae rheolwyr (rheolwyr llinell a/neu'r rheolwyr QAA sy'n arwain ar feysydd gwaith) yn gyfrifol am:

- sicrhau bod cydweithwyr QAA yn ymwybodol ac yn deall eu rhwymedigaethau fel yr amlinellir yn y polisi hwn

- ymgynghori â'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ynghylch pryderon, lle bo angen.

Staff, Adolygwyr, Aseswyr ac Ymwelwyr:

- sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u rôl ac yn cyflawni eu rhwymedigaethau fel yr amlinellir yn y polisi hwn.

# Datganiad polisi

Ni ddylai unrhyw un sy'n gweithio i QAA ymchwilio i bryderon ynghylch plant neu oedolion bregus sy'n cael eu cam-drin neu a allai fod yn cael eu cam-drin neu sy’n wynebu risg. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na ddylem wneud dim pan fyddwn yn ymwybodol o bryder.

Ar hyn o bryd nid yw QAA yn cynnal gweithgaredd wedi’i reoleiddio, ac nid oes ganddynt rwymedigaethau cyfreithiol i gofnodi pryderon na darparu hyfforddiant ar ymdrin â datgelu achosion diogelu. Fodd bynnag, mae disgwyl i staff ddilyn arfer da i sicrhau bod timau adolygu’n ymwybodol o bolisi diogelu'r darparydd lle maent yn cwblhau gweithgareddau sicrhau ansawdd, gan gynnwys sut i roi gwybod am bryderon diogelu i'r darparydd (trwy sianeli priodol). Yn dilyn adrodd am bryder diogelu i ddarparydd, cyfrifoldeb y darparydd, trwy eu polisïau a'u gweithdrefnau diogelu, yw ymchwilio i'r pryder a'i reoli yn unol â'u rhwymedigaethau cyfreithiol.

Mae gan ein holl staff a'r rhai sy'n ymwneud â gweithgareddau adolygu ddyletswydd i ymgyfarwyddo â threfniadau lleol y darparydd ar gyfer diogelu a sut i roi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch amddiffyn plant neu oedolion y byddant yn dod yn ymwybodol ohonynt.

## Gweithredu ar bryderon diogelu - Gweithdrefn i'w dilyn os bydd honiad neu amheuaeth o gam-drin

1. Os oes unrhyw un yn pryderu bod plentyn neu oedolyn agored i niwed mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, ni ddylent anwybyddu eu hamheuon ac ni ddylent gymryd yn ganiataol y bydd rhywun arall yn cymryd camau i amddiffyn y person hwnnw.

2. Yn ystod gweithgaredd adolygu mewn coleg neu brifysgol, mae’n bosibl y gall aelodau'r tîm adolygu dderbyn honiad o gam-drin, neu gallant weld rhywbeth sy'n peri pryder iddyn nhw eu hunain.

3. Rhaid cymryd pob pryder o ddifrif. Mae’n gyfrifoldeb ar unrhyw gydweithiwr QAA sy'n gweithredu ar bryderon diogelu i hysbysu'r sefydliad ar unwaith trwy ddefnyddio eu gweithdrefnau adrodd ar faterion diogelu gan sicrhau sensitifrwydd a chyfrinachedd.
4. Rhaid cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau ynghylch olrhain cwynion gydag awdurdodau perthnasol os bydd pryder difrifol yn dod i'r amlwg, neu ynghylch cyfrinachedd neu reolau rhannu gwybodaeth.

5. Os oes gan unrhyw un sy'n gweithio i QAA unrhyw amheuaeth ynghylch beth i'w wneud, dylent ymgynghori â'u rheolwr llinell neu Swyddog QAA i gael arweiniad ar y broses a chadw at y gofynion ar gyfer peidio â rhannu'r datgeliad y tu hwnt i'r gweithdrefnau adrodd sy'n cael eu dilyn, gan hefyd gynnal unrhyw gyfrinachedd sy'n angenrheidiol. Rhaid i'r rheolwr llinell neu'r Swyddog QAA hefyd gadw at y gweithdrefnau hyn os ydynt hwythau'n ceisio cymorth.

6. Rhaid i unrhyw un sy'n gweithio i QAA sydd â phryderon neu sy'n derbyn unrhyw honiadau am ymddygiad cydweithiwr godi hyn cyn gynted â phosibl gyda'u rheolwr llinell neu'r tîm Adnoddau Dynol.

7. Disgwylir i unrhyw un sy'n gweithio i QAA ddilyn a chydweithredu'n llawn â pholisïau a gweithdrefnau darparydd ynghylch diogelu.

### Beth mae hyn yn ei olygu i staff QAA?

Nid oes angen i staff QAA a'r rhai sy'n gweithio o fewn timau adolygu ddod yn arbenigwyr mewn trawma na cham-drin. Mae yna wasanaethau statudol sy’n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch a yw niwed i blentyn neu oedolyn bregus wedi cyrraedd trothwy sy'n "arwyddocaol".

Ni fydd pob pryder yn cyrraedd y lefel hon. Efallai y byddwch yn sylwi ar neu’n clywed rhywbeth sy'n peri pryder i chi ynghylch llesiant plentyn neu oedolyn, neu a allai ddod yn risg fwy sylweddol oni wneir rhywbeth i fynd i'r afael â’r sefyllfa. Yn yr achos hwn, yr ymateb mwyaf priodol yw adrodd yn unol â pholisïau’r darparydd fel bod unigolyn dynodedig yn gallu rhoi arweiniad neu gefnogaeth neu wybodaeth i'r plentyn neu'r oedolyn ynghylch sut i gadw eu hunain yn ddiogel.

Fodd bynnag, nid yw gwneud dim byd neu beidio â gweithredu yn dderbyniol. Os ydych chi'n dal i bryderu ar ôl dilyn y camau uchod, dylech gysylltu ag Arweinydd Diogelu Dynodedig QAA i gael cyngor. Os ydych chi'n cael eich effeithio gan faterion diogelu yn ystod eich gwaith, gallwch siarad â chymorthwyr cyntaf Iechyd Meddwl QAA neu ddefnyddio'r Llinell Gyngor i Weithwyr.

Gall unrhyw weithwyr sy’n mynd yn groes i’r polisi hwn fod yn destun Gweithdrefn Ddisgyblu QAA. Gall adolygwyr, aseswyr, ymwelwyr neu ymgynghorwyr QAA sy’n torri’r polisi wynebu cael eu contract wedi’i derfynu.

## Recriwtio

Gellir dod o hyd i ddull recriwtio diogelach QAA, gan gynnwys gwiriadau cyn cyflogaeth, yn y Polisi Recriwtio

# Adolygiad

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu ym mis Mehefin 2027

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk